

Adroddiad Blynyddol Yr Iaith Gymraeg

2023-24



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Safonau'r Gymraeg.....	4
Adrodd ar Sgiliau Iaith.....	7
Cwynion a dderbyniwyd 2023/24.....	11
Astudiaeth Achos 1: Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol	13
Astudiaeth Achos 2: Hwb Bach y Wlad	15
Astudiaeth Achos 3: Datblygu Swyddog Cefnogi Cymraeg Blynnyddoedd Cynnar	17
Astudiaeth Achos 4: Digwyddiad Rhwydwaith Graddedigion Cymru.....	20
Astudiaeth Achos 5: Asesu Effaith a Strategaeth Ddigidol y Cyngor	22
Astudiaeth Achos 6: Eisteddfod yr Urdd	24

Cyflwyniad

Mae'n bleser gen i gyflwyno Adroddiad Blynyddol Y Gymraeg Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2023-24 yn rhinwedd yn fy rôl fel Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg ar ran y Cyngor.

Bu'n flwyddyn brysur arall i ni fel Cyngor o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg, ac wrth lansio ein Strategaeth Hybu newydd ar gyfer 2023-2028. Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i holl bartneriaid y Cyngor sydd wedi cyd-gynhyrchu y Strategaeth hon, gan bwyso a mesur ein gweithgarwch yn y Strategaeth gyntaf law yn llaw â data Cyfrifiad 2021, er mwyn llunio strategaeth a gweledigaeth ar gyfer y cyfnod nesaf o weithredu.

Edrychaf ymlaen yn fawr at weld y gwaith o baratoi cynllun gweithredu ar gyfer pob un o'r amcanion yn cael ei hwyluso drwy gyfarfodydd y Fforwm Sirol Strategol, o dan gadeiryddiaeth Meri Huws. Rydym wedi gweld fod gosod themâu penodol i gyfarfodydd y Fforwm wedi gweithio'n dda, ond gyda'r cylch yma o weithredu'r Strategaeth, byddwn yn gofyn i bartneriaid y Fforwm i arwain ar feysydd priodol, er mwyn ennill o'u harbenigedd.

Yn bersonol, dwi'n ymfalchïo yn fawr yn y defnydd o'r Gymraeg ar lawr y siambr ac ar lein, ac rydym fel Cyngor, wedi llwyddo i integreiddio cyfieithu ar y pryd yn llwyddiannus i'r holl blatfformau a ddefnyddir. Mae gwaith diflino yr Uned Gyfieithu a'r Is-adran Digidol wedi sicrhau fod y Gymraeg wedi ei normaleiddio yn y meysydd hyn a'r meysydd digidol ehangach. Darparwyd canllawiau i staff ar hwyluso cyfarfodydd dwyieithog a'r defnydd o gyfieithu ar y pryd dros Teams, ynghyd ag anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio yn ddyddiol. Wrth i staff ddychwelyd i swyddfeydd, rydym wedi parhau i annog defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg. Un o'r cyfleoedd oedd cydweithio gyda Phrifysgol Bangor, fel rhan o gynllun peilot ARFer, er mwyn hyrwyddo defnydd o fewn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. Edrychaf ymlaen at barhau gyda'r cydweithio hynny at y dyfodol.

Mae'r Clwb Clebran hefyd yn parhau, gydag ystod o siaradwyr arbennig, ac rwy'n annog pobl i neilltuo awr y mis i glywed a defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, ar lein.

Carwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sy'n creu bwrlwm am y Gymraeg yn ein sir. Edrychaf ymlaen at flwyddyn brysur a llawn arall o hyrwyddo'r Gymraeg trwy gydweithio gyda'n holl partneriaid i wneud cynnydd yn Sir Gâr. Yn yr un modd, edrychaf ymlaen at gydweithio gyda'm cyd-Aelodau ar y Cabinet a'r Panel Ymgynghorol ar y Gymraeg, er mwyn sicrhau ein cydymffurfiaeth gyda'r Safonau'r Gymraeg, ym mhob cwr o'r Cyngor.

Y Cynghorydd Glynog Davies

**Aelod Cabinet dros Addysgu a'r iaith Gymraeg
Cyngor Sir Gâr**

Safonau'r Gymraeg

Mae'r safonau sy'n ofynnol inni gydymffurfio â nhw mewn pedwar categori:

- **Safonau Gwasanaeth** – y gwasanaethau Cymraeg rydym yn eu darparu ar gyfer y cyhoedd.
- **Safonau Polisi** – sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau trwy gynnal asesiadau effaith integredig er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn cael effaith gadarnhaol yn hytrach nag effaith niweidiol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu eu bod yn cynyddu'r cyfleoedd i'w defnyddio.
- **Safonau Gweithredol** – hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg yn ein prosesau gweinyddol mewnol.
- **Safonau Cadw Cofnodion** – cadw cofnodion er mwyn cydymffurfio â gofynion y safonau mewn meysydd megis sgiliau Cymraeg y staff, hyfforddiant, cwynion a recriwtio.

Llywodraethu a monitro ein Safonau

Mae'r Tîm Polisi a Chynnwys o fewn Adran y Prif Weithredwr yn cynnig cefnogaeth i holl adrannau'r Cyngor o ran cydymffurfiaeth gyda'r Safonau ac yn monitro cynnydd. Y tîm hynny sydd yn rheoli proses Gwynion y Cyngor ac felly, mae unrhyw honiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth yn dod i'n sylw yn syth.

Mae'r is-adran Rheoli Pobl yn arwain ar faterion adnoddau dynol ac ar y ddarpariaeth dysgu a datblygu. Yr is-adran sy'n arwain ar weithrediad y Strategaeth Sgiliau Iaith, ac yn cefnogi rheolwyr wrth gynllunio ein gweithlu a recriwtio staff.

Darperir adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, lle amlygir unrhyw risgiau i ni fel sefydliad o ran cydymffurfiaeth, law yn llaw a chyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae ein [Cynllun Cydymffurfio](#) yn nodi'r gweithdrefnau cydymffurfio sydd yn eu lle'n barhaol yn hytrach na nodi camau gweithredu blynyddol. Noda sut mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda'r Safonau, sut rydym yn goruchwyllo'r gydymffurfiaeth ac yn hybu a hwyluso defnydd ein gwasanaethau. Fe fydd yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer sicrhau cysondeb ein gweithdrefnau cydymffurfio, ac mae wedi ei osod ar ein gwefan i egluro'r hyn y gall y cyhoedd ddisgwyl gan y Cyngor o ran cydymffurfiaeth.

Panel Ymgynghorol yr Aelodau

Ceir Panel Ymgynghorol trawsbleidiol o Aelodau Etholedig er mwyn cefnogi a chynghori y Deilydd Portffolio ar y Gymraeg. Mae'r Panel yn gosod rhaglen waith o faterion yr hoffent eu trafod ac yn derbyn diweddariadau am y gwaith o hyrwyddo'r Iaith o ddydd i ddydd o fewn y sefydliad.

Dros y cyfnod adrodd hwn mae'r Panel wedi cyfarfod 4 gwaith ac wedi trafod y materion canlynol:

- Strategaeth Hybu'r Gymraeg a'r Fforwm Iaith Sirol
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

- Cynllun Cymraeg Gwaith
- Cynllun Arfor a chefnogaeth i fusnesau i ddefnyddio'r Gymraeg
- Enwau strydoedd a thai.

Gweithio mewn partneriaeth ar brosiectau

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cael y cyfle i gydweithio gyda sefydliadau eraill ar brosiectau. Mae'r prosiectau hyn yn rhoi cyfleoedd inni rannu adnoddau, gwybodaeth, profiad, sgiliau, trafod syniadau, materion ac atebion sydd o fudd i bob sefydliad yn ogystal â gwella gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r prosiectau rydym yn ymwneud â nhw fel a ganlyn: -

- Rydym wedi cael ein gwahodd gan **Gomisiynydd y Gymraeg** i gymryd rhan mewn prosiect dwy flynedd a ddechreuodd ym mis Medi 2023 yn edrych ar ffyrdd o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn fewnol mewn sefydliadau cyhoeddus. Mae'r prosiect yn cynnwys cydweithio a rhannu arfer da a dysgu oddi wrth sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Bydd y prosiect hwn yn ein helpu i ddatblygu model mewnol i gyd-fynd â'n gweledigaeth wrth ddatblygu ein hunain yn sefydliad dwyieithog a byw ein gwerthoedd.
- Mae **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr** wedi ymrwymo, drwy ei Amcanion Lles, i helpu i greu cymunedau dwyieithog, diogel ac amrywiol ac wedi nodi gwirededu Strategaeth Hybu'r Gymraeg fel un o'i bwyntiau gweithredu. Yn yr un modd, mae yna bwynt gweithredu o ran cynllun gweithlu at y dyfodol sy'n cydnabod yr her o ran cynllunio a recriwtio sgiliau i weithluoedd y dyfodol. Mae ystyriaeth o ran sgiliau yn y Gymraeg yn ganolog i'r gwaith hwn. Bydd y prosiect hwn yn ein helpu i ddeall y materion allweddol sy'n ymwneud â recriwtio siaradwyr Cymraeg drwy ymchwilio i heriau a llwyddiannau dylunio a recriwtio gweithlu dwyieithog mewn sefydliadau cyhoeddus sy'n aelodau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr. Bydd yr adroddiad a luniwyd yn cyflwyno tystiolaeth ar gyfer datblygu gwell dealltwriaeth o'r heriau ac arferion da wrth ddylunio gweithlu dwyieithog, ac argymhellion ar gamau ymarferol i fynd i'r afael â gwahanol agweddau o'r broses.
- Adroddwyd y llynedd am y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a wnaed o fewn prosiect economaidd **Pentre Awel**, yn Llanelli. Gwelwyd cyfle i roi sail dystiolaeth i'r cysyniad o hyrwyddo a hybu'r Gymraeg wrth ddatblygu'r cynllun economaidd hwn, gan geisio sicrhau ymrwymiad holl bartneriaid y prosiect i hyrwyddo'r Gymraeg ar bob cam o'r datblygiad. Cwblhawyd asesiad effaith manwl ar y Gymraeg, ac yn dilyn hynny, paratowyd cynllun gweithredu ar gyfer y prosiect cyfan, sydd wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd y prosiect. Yn dilyn yr Asesiad Effaith, drafftwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer y Gymraeg, y cyntaf o'i bath ar gyfer y prosiect cyfan. Mae'r Cynllun Gweithredu yn adnabod gweithredoedd a fydd yn sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o'r gwaith adeiladu hyd at y ddarpariaeth hamdden ac iechyd a gofal. Mae'r swyddog Buddion Cymunedol a benodwyd gan gwmni Bouygues yn rhugl yn y Gymraeg ac wedi arwain ar ymgysylltu cymunedol helaeth gydag ysgolion, colegau a phreswylwyr lleol.
- Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, fel rhan o gonsortium ehangach o bartneriaid awdurdodau lleol ledled Cymru, wedi gweithredu System Llwyfan a Rheoli Dysgu Profiad y Dysgwr newydd o'r enw **'Thinqi'** ar draws y sefydliad. Drwy Raglen Trawsnewid y Cyngor, y nod yw gwella mynediad at fentrau dysgu, gan sicrhau bod

gan yr holl staff fynediad at 'Ddysgu Hanfodol' fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i'w ddyletswyddau cyfreithiol, gan gynnwys Mesur y Gymraeg. Mae'r system wedi'i gynllunio i gefnogi hygyrchedd, gan gynnig nodweddion fel cynnwys â chapsiynau a thechnoleg dysgu addasol i ddiwallu anghenion staff ag arddulliau dysgu gwahanol. Fel system cwmwl, gall staff gael mynediad at ddysgu ar ddyfeisiau gwahanol, gartref, yn y gwaith, neu ar ddyfais bersonol. Yn ogystal, mae system Adnoddau Dynol sylfaenol y Cyngor wedi'i hintegreiddio'n llawn â Thinqi. Mae hyn yn caniatáu i broffiliau staff gael eu cydamseru â chyfrifon dysgwyr, yn seiliedig ar strwythurau staffio o fewn y sefydliad. Bydd yr holl adnodd ar gael yn y Gymraeg ac mae'r modiwl Ymwybyddiaeth Iaith yn un o'r modiwlau craidd. Yn ystod 2024-25, byddwn yn parhau i adeiladu y system fel bod cofnodion ieithyddol staff yn cael eu cadw a'u dadansoddi yn y fan hon.

Adrodd ar Sgiliau Iaith

Rydym yn adrodd ar lefelau iaith fesul adran o fewn y Cyngor er mwyn ein cynorthwyo i ddadansoddi'r sefyllfa yn well. Byddwn yn parhau i adrodd yn y fformat yma er mwyn medru cymharu'r niferoedd a chynllunio ein blaen-raglen waith Dysgu a Datblygu.

Nid yw'r data yma yn cynnwys gwybodaeth o ran Ysgolion (gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig, gwirfoddol neu ysgolion a gynorthwyr).

	0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Dim cofnod	Cyfanswm
Prif Weithredwr	11	145	76	65	83	127	26	533
Cymunedau	10	797	366	234	185	282	99	1973
Gwasanaethau Corfforaethol	2	60	43	23	31	41	18	218
Addysg a Phlant	129	417	242	162	109	276	219	1554
Lle a Seilwaith	150	200	95	98	91	123	242	999
CYFANSWM	302	1619	822	582	499	849	604	5277

	2022-2023	2023-2024	%
Lefel 0	382	302	-20.94%
Lefel 1	1576	1619	+2.73%
Lefel 2	762	822	+7.87%
Lefel 3	553	582	+5.24%
Lefel 4	468	499	+6.62%
Lefel 5+	778	849	+9.12%

Gwelwyd lleihad yn y nifer o staff sydd heb sgiliau yn y Gymraeg yn ein gweithlu, sy'n adlewyrchu parodrwydd ein staff i ddatblygu eu sgiliau iaith ar hyd y continwwm iaith.

Rydym wedi gweld cynnydd cyson ar draws y lefelau eraill hefyd, a bydd modd i ni ddadansoddi hyn ymhellach wrth i ni adolygu ein Strategaeth Sgiliau Iaith yn ystod 2024-25. Fel rhan o'r adolygiad, byddwn yn edrych yn fanylach ar ein data recriwtio, hyfforddiant a chofnodion sgiliau iaith ein staff, er mwyn adeiladu ar ein gwaith o gynllunio gweithlu a darparu cyfleoedd dysgu.

Dysgu Cymraeg

Darperir ystod o gyfleoedd dysgu Cymraeg yn rhithiol ac mewn awyrgylch dosbarth, wyneb yn wyneb. Gellir creu cyfuniad o ddulliau dysgu, er mwyn cefnogi patrymau gwaith ac anghenion gwasanaethau wrth ryddhau staff. Mae'n cymryd oddeutu 120 awr o ddysgu i gyrraedd y lefel nesaf, ac mae staff yn rhan o ddarpariaeth sy'n amrywio o sesiynau

wythnosol rhwng 2 a 4 awr, darpariaeth ddwys dros gyfnod o wythnos neu ddysgu cyfunol sef cyfuniad o ddysgu ar-lein a hunan astudio.

Mae'r dulliau dysgu canlynol ar gael yn ein gweithle:

- Cyrsiau rhithiol prif ffrwd ar-lein gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg
- Cyrsiau Cymraeg Gwaith ariannir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- Say Something in Welsh.

Mae ein staff hefyd yn defnyddio dulliau mwy anffurfiol ar cyd ag un o'r llwybrau uchod, fel Duolingo, Podlediadau a YouTube.

Yn ystod 2023-24, bu'r Cyngor yn ffodus iawn o dderbyn cyllid gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg i gyflogi tiwtor Cymraeg Gwaith o fewn yr adran Addysg. Bu cyfle i fod yn arloesol wrth ymateb i ofynion ein staff a chynnal gweithdai byr fel sesiynau 'Ie a Na', i helpu staff gydag ateb cwestiynau. Cafwyd sesiynau gloywi hefyd, er mwyn helpu staff gydag elfennau gramadeg gwahanol.

Dyma restr o'r holl gyrsiau a ddarparwyd, gyda'r ffigyrau a gwblhaodd y ddarpariaeth.

* Noder, gyda'r cyrsiau yn y rhaglen Dysgu Cymraeg, mai ffigyrau cofrestru sydd yma yn unig, gan nad oedd y cyrsiau wedi gorffen.

Cwrs Dysgu Cymraeg	Lefel cyrhaeddwyd	Disgrifiad byr	Cyfanswm
Croeso a Chroeso Nôl - Hunan Astudio	Lefel 1	Hunan astudio drwy wefan Dysgu Cymraeg	29
RHAGLEN CYMRAEG GWAITH			
Croeso Cymraeg	Lefel 1	Gweithdy anffurfiol er mwyn cyrraedd lefel 1	50
Gloywi – Ysgrifennu	-----	Gweithdy 4 awr i wella sgiliau Ysgrifennu Cymraeg	11
Grym Gorchymyn	—	Gweithdy byr 40 munud i ddefnyddio mwy o Gymraeg mewn cyfarfodydd	3
Ie a Na	—	Gweithdy byr 40 munud ar sut i ateb cwestiwn	38
Pethau Bychain	—	Gweithdy byr i mireinio ar y pethau bychain yn y Gymraeg	2
Mynediad 1+2		Cwrs Mynediad gyda tiwtor CSG –	20

Cwrs Dysgu Cymraeg	Lefel cyrhaeddwyd	Disgrifiad byr	Cyfanswm
		dysgu gyda staff eraill	
Sylfaen 1+2	3	Cwrs Sylfaen gyda tiwtor CSG – dysgu gyda staff eraill (ail grŵp yn dilyniant o Mynediad)	19
Canolradd 1+2	4	Cwrs Canolradd gyda tiwtor CSG – dysgu gyda staff eraill (ail grŵp yn dilyniant o Sylfaen)	8
Mynediad 1 Wythnos dwys	Lefel 1	Hanner Mynediad mewn wythnos.	8
Codi Hyder	—	I annog staff CSG sydd yn deall Cymraeg ond diffyg hyder i ateb. Rhaglen 1.5 awr yr wythnos am 15-20 wythnos	19
Mynediad - Hunan Astudio	Lefel 2	Hunan astudio drwy wefan Dysgu Cymraeg gyda chefnogaeth tiwtor yn wythnosol	25
RHAGLEN DYSGU CYMRAEG			
Mynediad	Lefel 2	Dysgu Cymraeg i ddechreuwr gyda darparwyr amrywiol Dysgu Cymraeg	11
Sylfaen	Lefel 3	Dysgu Cymraeg gyda darparwyr amrywiol Dysgu Cymraeg	8
Canolradd	Lefel 4	Dysgu Cymraeg gyda darparwyr amrywiol Dysgu Cymraeg	4
Uwch	Lefel 5	Dysgu Cymraeg gyda darparwyr amrywiol Dysgu Cymraeg	5
Cynllun Siarad	Lefel 4+	Pari gyda rhywun tu allan i'r sefydliad i	4

Cwrs Dysgu Cymraeg	Lefel cyrhaeddwyd	Disgrifiad byr	Cyfanswm
		siarad Cymraeg am 10 awr	
Cyfanswm:			264

Trwy dderbyn cyllid am diwtor yn uniongyrchol i staff Cyngor Sir Gar, rydym wedi cynyddu niferoedd sydd wedi ymrwymo i ddysgu Cymraeg drwy gyrsiau byr a hir, o 173 i 264, sy'n gynydd o 52.6%.

E-ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

Amser Stori Actif	8
Awtistiaeth a Deall Sut i Gyfathrebu yn Effeithiol	1
Cadeirio Gwrandawriad Disgyblu	5
Carbon Sero Net	2
Cyd-destun Cyngor Sir Gaerfyrddin	1
Cyflwyniad i Gaffael	5
Datgelu Camarfer	8
Deall Awtistiaeth	3
Gofyn a Gweithredu – grŵp 2	13
Diogelu Data UK GDPR	18
Gwytnwch Personol	1
Hanfodion Ynni	1
Iechyd Meddwl yn y Gweithle	8
Newid Hinsawdd a'r Argyfwng Natur	3
Rheoli Amser	2
Rheoli Contractau	2
Ymwybyddiaeth Hylendid Bwyd	3
Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	12
Ynni Adnewyddadwy a Thechnolegau Carbon Isel	1
CYFANSWM	97
Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Saesneg)	533

Mae hefyd yn bwysig nodi er nad yw'r cynnwys yn cael ei ddarparu mewn un iaith, mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau yn cynnwys y Gymraeg ac yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod eu holl adnoddau yn ddwyieithog, yn croesawi pawb yn ddwyieithog ag yn apwyntio hyfforddwyr Cymraeg fel bod angen.

O ran hyfforddiant i'r Aelodau Etholedig, mae'r adnoddau yn ddwyieithog. Darparwyd rhai cyrsiau yn uniaith Gymraeg a rhai yn ddwyieithog, lle darparwyd rhan o'r sesiwn yn Gymraeg a rhan yn Saesneg. Yn ogystal, ar draws Dysgu a Datblygu cynigwyd grwpiau trafodaeth Cymraeg i'n staff yn ystod ymarferion gweithdai.

Cwynion a dderbyniwyd 2023/24

Mae'r adborth a gawn gan ein trigolion yn hanfodol ar gyfer gwella ein gwasanaethau ac rydym yn gwneud pob ymdrech i ddysgu o'r holl gwynion, canmoliaethau a sylwadau a gawn fel Cyngor.

Mae'r Tîm Cwynion Corfforaethol yn rheoli unrhyw gwynion a dderbynnir am ddiffyg cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 neu gan Gomisiynydd y Gymraeg a'u swyddfa. Yn ystod 2023-24, derbyniwyd wyth cwyn mewn perthynas â diffyg gwasanaethau cyfrwng Gymraeg.

Cynhaliwyd ymchwiliadau o ddiffyg cydymffurfio o dan Safonau'r Gymraeg gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Canfuwyd diffyg cydymffurfiaeth mewn dau ymchwiliad. Mae trefniadau wedi'u rhoi ar waith i helpu i sicrhau bod cydymffurfiaeth a dysgu o'r ymchwiliadau hyn yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol.

1	Cwyn am ddiffyg gwasanaeth cyfrwng Gymraeg ac ymwybyddiaeth gan aelod o staff, wrth gysylltu â thîm Treth y Cyngor. Ni gynigwyd gwasanaeth cyfrwng Gymraeg, a pharhawyd â'r alwad yn Saesneg.
2	Ymchwiliad drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch Safon 47 a chyhoeddi dwy ddogfen (adroddiad Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag a diweddariad ar Arfor 2) yn uniaith Saesneg, drwy bapurau democrataidd y Cyngor. Yn dilyn yr ymchwiliad, dyfarnodd y Comisiynydd fod y Cyngor yn torri Safon 47. Safon 47: <i>Os yw corff yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, ac os nad oes safon arall eisoes yn gosod dyletswydd i gorff llunio'r ddogfen yn Gymraeg, rhaid iddo asesu:</i> a) a yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg neu b) a yw'r gynulleidfa a ragwelir a'i disgwyliadau yn awgrymu dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg Mae'r adroddiad arfaethedig yn nodi bod y methiant i gydymffurfio yn seiliedig ar y penderfyniad bod y Cyngor wedi cyhoeddi papurau'r Cabinet at ddefnydd y cyhoedd yn Saesneg yn unig, er bod eu pwnc a'u cynulleidfa yn debygol o awgrymu y dylid llunio'r dogfennau yn Gymraeg. Fel rhan o'r hysbysiad, roedd gofyn i'r Cyngor gymryd camau yn unol ag adran 77 o Fesur y Gymraeg: 1. Rhaid i'r Cyngor addasu ei drefniadau mewnol er mwyn gweithredu yn unol ar ddehongliad cywir o safon 47 a sicrhau bod papurau'r Cabinet yn cael eu cynhyrchu yn y Gymraeg os ydyn yn cyrraedd y trothwy o dan safon 47. 2. Rhaid i'r Cyngor lunio canllaw neu arweiniad i'w staff sy'n egluro gofynion safon 47 mewn perthynas â phapurau'r Cabinet a thynnu'r ddogfen honno at sylw staff perthnasol.

3	Cwyn am ddiffyg gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn nerbynfa Canolfan Hamdden Caerfyrddin. Hefyd, o ran arddangos baneri Jac yr Undeb ar y safle.
4	Cwyn am gamsillafu Glanyfferi ar arwydd Darganfod Sir Gâr.
5	Cwyn am arwyddion ffyrdd newydd ar gylchfan Trostre yn uniaith Saesneg. Roedd yr arwyddion newydd wedi'u paentio i gynnwys 'Town Centre' 'West' a 'East' heb y cyfwerth yn y Gymraeg. Cywirwyd yr arwyddion yn syth. Cadarnhawyd diffyg cydymffurfiaeth gyda'r Safonau.
6	Cwyn ynglŷn â darpariaeth cludiant i ysgol cyfrwng Cymraeg a diogelwch y man casglu ar gyfer y disgyblion.
7	Ymchwiliad drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn dilyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch gohebiaeth gan dîm y Gwasanaethau Etholiadol – cyfeiriad cyfrwng Saesneg wedi ei ddefnyddio i ohebu a dim opsiwn demograffig i nodi fod yr unigolyn yn Gymro/Gymraeg (opsiwn Prydeinig yn unig). Penderfynwyd i beidio parhau â'r Ymchwiliad ac y byddai Swyddfa'r Comisiynydd yn ymchwilio ymhellach i'r meddalwedd a ddefnyddir i reoli'r wybodaeth Etholiadol.
8	Cwyn ynglŷn a'r opsiynau iaith toglo a pharhad ar wefan y Cyngor. Wrth glicio ar dudalennau Cyngor a Democratiaeth cyfrwng Cymraeg perthnasol ar y wefan, aeth togl y defnyddiwr i'r cyfwerth cyfrwng Saesneg.

Astudiaeth Achos 1: Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol


Cefndir

Gyda'r byd digidol yn newid a datblygu yn ddyddiol mae'n allweddol i ni fel awdurdod lleol sicrhau bod rhoi'r wybodaeth diweddaraf a mwyaf cyfoes i drigolion y Sir yn flaenoriaeth i ni a hynny drwy ein gwefan a chyfryngau cymdeithasol. Yn enwedig i'r rhieni di-Gymraeg gyda phlant mewn addysgu Gymraeg neu rheini sydd yn ystyried danfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg a thrigolion sydd wedi mudo i'r Sir. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi symud i ffwrdd o ddefnyddio copïau caled, ac felly mae'n ddyletswydd arnom fel Cyngor i sicrhau fod mynediad ar gael i bopeth Cymraeg ar ein gwefan corfforaethol a chyfryngau cymdeithasol.

Gweithredu

O ran y dudalen Gymraeg ar wefan gorfforaethol y Cyngor fe'i ailwampwyd er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i drigolion a throsglwyddo negeseuon cadarnhaol am y Gymraeg.

Y cam cyntaf a wnaethpwyd oedd ail ddylunio rhai o'n pecynnau megis Bod yn Ddwylieithog a Croeso i Sir Gâr. Yn dilyn ymlaen o hyn, crëwyd taenlennu newydd ac uwch lwythwyd i'r wefan, yn cynnwys taenlen newydd oedd yn cynnwys yr holl lawr lwythiadau er mwyn allu cael mynediad hawdd iddynt.



Cyhoeddwyd Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-28 ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yn Mis Mai 2023. Wedi'r lansiad sicrhawyd ei bod yn mynd yn fyw ar y wefan yn syth er mwyn i bawb allu cael mynediad iddo ac felly cafodd taenlen newydd ei greu a oedd yn crynhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol gan gynnwys linc i lawrlwytho'r strategaeth.

Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Mae 'Strategaeth Hybu'r Gymraeg, Sir Gâr 2023-28' yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i adfer sefyllfa'r Gymraeg yn y sir drwy gynyddu niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r sefyllfaoedd lle mae pobl yn gallu siarad Cymraeg, codi statws yr iaith, cefnogi cymunedau i gynnal yr iaith ac effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth. Mae llunio'r Strategaeth yn un o ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae'n ymgorffori ac yn datblygu'r gwaith a wnaed mewn ymateb i ganlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011, sef adroddiad, 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'. Lluniwyd y Strategaeth gan y 19 o gyrff sy'n aelodau o Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg Sir Gâr, ac mae i'r Strategaeth Gynllun Gweithredu sy'n cael ei ddiweddarau pob chwarter ar gyfer cyfarfodydd y Fforwm Strategol Sirol.

Y Gymraeg yn Sir Gâr

Yn dilyn cwmpas yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, lluniodd grŵp tasg a gorffen o aelodau etholedig adroddiad Y Gymraeg yn Sir Gâr, gyda chyfres o argymhellion ar sut i wella sefyllfa'r iaith yn y sir. Mae'r argymhellion hyn bellach wedi eu hymgorffori yn Strategaeth Hybu'r Gymraeg.

DARLLENWCH Y STRATEGAETH

Lawrlwythiadau

- > [Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2023-28 \(2MB, pdf\)](#)
- > [Adroddiad y Gymraeg yn Sir Gâr \(1MB, pdf\)](#)

Yn ystod 2023-24, cefnogwyd ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg'. Rhannwyd postiadau ar Facebook a Thrydar y Cyngor yn crynhoi hawliau trigolion i ddefnyddio / annog i siarad Cymraeg ar safleoedd yr awdurdod dros y cyfryngau neu wyneb yn wyneb.



Canlyniad

Fe dderbyniwyd ymateb cadarnhaol iawn wrth rannu ar blatfformau cymdeithasol yn enwedig Facebook. Postiwyd y neges yn Gymraeg a Saesneg ac fe gyrhaeddwyd 7,183 o gysylltiadau rhwng y ddau. Fe wnaeth dros 30 o bobl ymateb i'r hyn a rannwyd. Gwelir fod hyrwyddo ar Gyfryngau Cymdeithasol yn ffordd effeithiol o gyrraedd cynulleidfia ehangach a thu allan i'r Cyngor.

Dyfodol

Wrth edrych tuag at y dyfodol, y bwriad yw parhau i ddiweddarau'r wefan ac i'w gadw yn gyfoes. Rydym yn gobeithio ychwanegu tudalennau newydd a fydd yn cynnwys gwybodaeth am weithgareddau i Oedolion neu Blant yn ei hardal leol am gyfle i ddefnyddio neu ymarfer y Gymraeg a hynny mewn gweithgaredd anffurfiol. Byddai'n ddefnyddiol gallu creu map byw er mwyn gallu dod o hyd i weithgareddau cyfrwng Cymraeg. Rydym hefyd yn gobeithio ychwanegu rhai materion pwysig sydd wedi codi drwy gyfarfodydd megis Panel Ymgynghorol y Gymraeg megis Enwau Lleoedd. Byddai ychwanegu taenlen ar enwau lleoedd yn ei wneud yn hygyrch i'r aelodau a thrigolion y Cyngor ddod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf.

Byddwn yn edrych i weithio yn agos gyda'r tîm marchnata er mwyn monitro cynnydd defnydd a chynnydd y postiadau Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol i weld faint o drigolion y Sir sydd yn darllen y postiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ymateb i erthyglau ac ymgynghoriadau.

Astudiaeth Achos 2: Hwb Bach y Wlad

Cefndir

Ym mis Medi 2023, fel datblygiad pellach o'r Hwb, fe sefydlwyd Hwb Bach y Wlad sydd wedi ei ddatblygu i fod yn esiampl arbennig o ran hyrwyddo arfer dda o'r laith Gymraeg. Mae staff yr Hwb yn gweithio'n agos gyda thrigolion y Sir i sicrhau cymorth cofleidiol ac yn parhau i helpu'r cwsmer i ddod allan o argyfwng gyda'r nod o gynyddu eu hincwm, sefydlogrwydd ariannol a sicrhau bod eu anghenion llesiant yn cael eu diwallu. Mae staff yr Hwb yn gallu helpu cwsmeriaid y Sir gyda threth y Cyngor, budd-daliadau, unrhyw faterion ynglŷn â thai a chostau byw.

Gweithredu

Mae Hwb Bach y Wlad yn ymweld â deg tref wledig yn y Sir. Dechreuir bob sgwrs gyda, "Shwmae, ydych chi'n siarad Cymraeg". Mae hyn yn gynnig rhagweithiol i siaradwyr Cymraeg ein sir. Cynigir unrhyw apwyntiadau trwy gyfrwng yr laith Gymraeg ac mae pob ffurflen, naill ai yn y fan sydd yn ymweld â'r lleoliadau deg tref neu ar y cyfrifiadur yn ddwyieithog.

Un o'r tueddiadau sydd wedi cael ei gweld yw fod cwsmeriaid sy'n byw yn y Sir yn teimlo'n fwy cyfforddus i siarad â staff Hwb Fach y Wlad drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r laith yn rhan allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir. I'r cwsmeriaid hynny sydd ddim yn siarad Cymraeg ond sydd â ddiddordeb i ddechrau dysgu mae'r Hwb yn eu cyfeirio at y ddarpariaeth sydd ar gael. Mae'r holl staff yn siarad Cymraeg gyda'u gilydd pob dydd.

Wrth i'r Hwb ymweld â'r trefi, un o'r tueddiadau a welwyd yw mai'r Gymraeg sy'n cael ei defnyddio yn bennaf yn y martiau amaethyddol. Ceir un enghraifft yn Llanymddyfri, lle sylwodd aelod o'r cyhoedd fod aelod o staff yn medru'r Gymraeg. Roedd medru sgwrsio yn Gymraeg yn hanfodol i'r unigolyn yma, oherwydd natur sensitif y materion y trafodwyd. Heb y cyfle i siarad Cymraeg, efallai na fyddai'r unigolyn wedi dod i gael cymorth.

Cafwyd adborth gan un cwsmer a wnaeth ymweld â Hwb Llandeilo, a ddywedodd ei fod yn hapus dros ben bod y ddau ymgynghorydd Hwb yn gallu siarad Cymraeg gan mai hon oedd ei iaith cyntaf ac fe ddywedodd ei fod yn teimlo'n gartrefol yn syth.

Canlyniad

Drwy gyflogi staff sydd yn ddwyieithog, rydym wedi gallu darparu gwasanaethau yr Hwb i dros 5,000 o gwsmeriaid yma yn Sir Gâr. Mae'r tîm wedi cwblhau 152 o ymweliadau gwledig, mynychu 22 digwyddiad cymunedol ac wedi codi dros 150 o atgyfeiriadau 'Hawliwch beth sy'n ddyledus'.

Dyfodol

Bydd Hwb Bach y Wlad yn parhau i ddarparu'r holl wasanaethau a datblygu adnoddau yn ddwyieithog yn yr holl leoliadau. Bydd yr holl bostiadau sydd yn cael eu gwneud ynghlwm a'r Hwb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd yn parhau i gael eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Edrychwn i weithio yn agos gyda'r tîm marchnata i fonitro niferoedd sy'n dewis yr opsiwn Cymraeg ar y wefan a llenwi arolygon a holiaduron drwy gyfrwng y Gymraeg.

Dros fisoedd yr Haf, bydd yr Hwb yn mynychu digwyddiadau amaethyddol dros y Sir ynghyd â digwyddiadau eraill a byddant yn sicrhau bod yr Iaith yn cael ei ddefnyddio yn ystod y digwyddiadau yma.

Rydym yn awyddus i edrych ymhellach ar y nifer sy'n defnyddio'r Gymraeg wrth dderbyn ein gwasanaethau.



Astudiaeth Achos 3: Datblygu Swyddog Cefnogi Cymraeg Blynyddoedd Cynnar


Cefndir

Yn 2023 fe ddatblygwyd swydd newydd o fewn yr Adran Addysg a Phlant, Swyddog Cymorth Iaith Gymraeg y Blynyddoedd Cynnar. Penodwyd Enfys John i'r swydd. Rhai o brif ddibenion y swydd yw gweithio gyda rhaglen Dechrau'n Deg i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r iaith Gymraeg, ac annog teuluoedd i gydnabod manteision codi plant ddwyieithog. Edrychir i fagu hyder ymysg y gweithlu gofal plant blynyddoedd cynnar i ddarparu gwasanaethau gofal plant Cymraeg o safon uchel. Ynghyd â hyn, mae'r swyddog yn cydweithio ac ymgysylltu â gwasanaethau a sefydliadau cymorth blynyddoedd cynnar eraill. Gwneir hyn i ddarparu cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn gweithgarwch Cymraeg er mwyn annog a chefnogi mynediad at ddarpariaeth Gymraeg.

Gweithred

Un o'r prif brosiectau sydd wedi bod ar waith ers datblygu'r swydd yw cydweithio yn agos gyda lleoliadau gofal plant er mwyn datblygu eu darpariaeth Gymraeg. Mae yna nifer o dasgau wedi bod ar y gweill i ddatblygu ac fe'i crynhoir yn fras isod:

1. **Cynlluniau Ymweld a Chymorth:** Cynhelir ymweliadau gyda lleoliadau sy'n cynnig gwasanaeth gofal plant Dechrau'n Deg i deuluoedd. Trwy arsylwadau a thrafodaethau gyda staff, crëwyd cynlluniau datblygu darpariaeth ar gyfer pob lleoliad gan nodi eu hamcanion cyfredol, a chynllun gweithredu i gyrraedd bob amcan. Darperir adnoddau a dolenni i gefnogi bob pwynt yn eu cynllun gweithredu a bydd y swyddog yn dychwelyd i ymweld â phob lleoliad mewn 2 dymor i adolygu amcanion.
2. **Cylchlythyr misol 'Y Cwtsh Cymreig':** Yn fisol crëir cylchlythyr i gefnogi lleoliadau gyda'u darpariaeth Gymraeg gan nodi dolenni i wybodaeth hanfodol ac unrhyw gyfleoedd hyfforddi sydd i ddod. Rhannwyd hefyd gyda lleoliadau addysg a'r Gwasanaeth i Deuluoedd. Gwelir enghraifft o gylchlythyr Ebrill 2024 isod.



- 3. Cymorth grŵp ffocws (rhaglen Ffa-la-la – 2 ddiwrnod):** Cynigir hyfforddiant Ffa-la-la o bob lleoliad gofal plant sy'n cynnig Dechrau'n Deg, sydd yn rhaglen ar gyfer staff gofal plant sy'n cyflwyno patrymau iaith trwy ganeuon Cymraeg. Mewn dilyniant â hyn mae 6 lleoliad gofal plant wedi derbyn sesiynau ddilynol gan Carys Gwent (Ffa-la-la) er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n llwyddiannus.

Cydweithia Enfys yn agos gyda grwpiau cymunedol, yn benodol grwpiau teuluoedd ac mae wedi cynnal diwrnodau hyfforddiant a sesiynau Cymraeg er mwyn cyflwyno yr ystod o gymorth ac adnoddau sydd ar gael i gefnogi ymarferwyr sydd o fewn canolfannau teulu i ddatblygu eu darpariaeth Gymraeg.

Mae Enfys eisoes wedi datblygu rhai adnoddau megis rhestr chwarae Spotify o gerddoriaeth Cymraeg i blant ac yn cynnig cymorth uniongyrchol i deuluoedd drwy sesiynau iaith a Chwarae / Sesiynau cyn-geni. Diweddarwyd gwefan gwybodaeth i deuluoedd drwy weithio ochr yn ochr ag aelodau o Grŵp ffocws CSGA i greu porth ar-lein i bob darparwr gofal plant i gael mynediad at adnoddau a gwybodaeth berthnasol i gefnogi lleoliadau gyda'u darpariaeth o'r Gymraeg.

Canlyniad

Lluniwyd rhaglen beilot i'r teulu 'Cymraeg yn y Cartref' a oedd yn rhaglen 5 wythnos i deuluoedd i'w cefnogi a helpu i ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd. Cynhelir sesiynau yng Nghaerfyrddin a Gorslas tan fis Mawrth. Cafwyd 32 teulu yn mynychu ar draws y 5 wythnos a'r weledigaeth hir dymor yw gweithredu'r sesiynau yn rheolaidd. Bu'r adborth yn gadarnhaol iawn gyda aelodau a fynychodd yn nodi rhai sylwadau mewn holiadur isod.

"My son has really enjoyed the classes, he gets very excited listening and watching the singing. Although my wife is a Welsh speaker it's given him more exposure to Welsh, which is brilliant as he will be going to a Welsh school."

"I was very impressed with the 'Cymraeg yn y cartref' sessions as even as a fluent Welsh speaker, I also learnt new Welsh words, phrases and songs, which is very beneficial for me to then teach to my child. My child also really enjoyed the sessions and would continue to sing every song used in the sessions after leaving the sessions. The sessions have been extremely beneficial for mine and my child's Welsh and for my child's development. We would love for these sessions to be an ongoing weekly session for us to attend as it is the only place to offer the opportunity of a full Welsh session."

Dyfodol

Mae'r dyfodol yn edrych yn gadarnhaol iawn gyda nifer o brosiectau cyffrous ar y gweill. Un ohonynt yw i greu fideo sy'n hyrwyddo cefnogi cyflogai sy'n dysgu a fydd yn rhannu y profiad o ddysgu Cymraeg gyda lleoliadau i hyrwyddo dysgu Cymraeg ymhellach. Bydd ffocws benodol ar brofiad cyflogwr a'r gefnogaeth i staff wrth ddilyn y llwybr dysgu.

Edrychir i gryfhau darpariaeth Cymraeg Canolfannau Teuluol y Sir a hynny drwy gynnal archwiliadau a chreu cynlluniau cefnogi i ganolfannau. Y bwriad yw sefydlu sesiynau a fydd a ffocws ar gefnogi datblygiad Cymraeg rhieni â'u plant drwy grwpiau cyson o fewn y

canolfannau teuluol. Edrychir i archwilio'r posibilrwydd o defnyddio'r adnodd / rhaglen 'Ffa-la-la' i weithredu ar hyn.

Ar hyn o bryd mae Enfys yn cyfathrebu gydag ymwelwyr iechyd ar draws y Sir er mwyn mynychu amryw o glinigau galw heibio. Mae hyn yn ffordd o gysylltu â theuluoedd fel cefnogi gyda phenderfyniadau ynghylch datblygiad Cymraeg eu plant a'u teulu a'r bwriad yw parhau a datblygu hyn ymhellach.

Astudiaeth Achos 4: Digwyddiad Rhwydwaith Graddedigion Cymru

Cefndir

Ym mis Medi 2023 cafodd Sioned Raymond, ein swyddog graddedig Polisi a Phartneriaeth ei gwahodd i fod yn rhan o grŵp Rhwydwaith Hyfforddeion Graddedig Cymru a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd. Dyma'r tro cyntaf i'r fath rwydwaith gael ei sefydlu yma yng Nghymru. Pwrpas y rhwydwaith oedd tynnu ynghyd cynlluniau graddedigion sector gyhoeddus Cymru. Y bwriad hir dymor oedd trefnu cynhadledd oedd yn gyfle i hyfforddeion a chydlynwyr yr amrywiol gynlluniau i rannu syniadau, profiadau ac arferion da ac adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio. Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys cynrychiolaeth Cynllun Yfory, Cyngor Gwynedd, Cynrychiolaeth Cynllun Graddedigion Academi Cymru a chynrychiolaeth graddedigion Cyngor Sir Gâr sef Sioned Raymond.

Gweithred

Roedd gan y grŵp aelodaeth o ddeg person, ac wedi cyfarfodydd cychwynnol ac i bawb ddod i adnabod ei gilydd, amserlennwyd cyfarfodydd bob pythefnos er mwyn dechrau rhoi'r cynlluniau ar waith i drefnu'r digwyddiad. Penderfynwyd mai Aberystwyth oedd y lleoliad gorau i gynnal y digwyddiad gan fod disgwyl i raddedigion deithio o sawl sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhannwyd y tasgau ymysg yr aelodau ac un o'r tasgau oedd gan Sioned oedd trefnu agoriad ar gyfer y digwyddiad gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Gâr, Wendy Walters. Isod crynheir trosolwg o'r holl a baratowyd ar gyfer y gynhadledd:

- Sesiwn gwestiwn-ag-ateb efo Carwyn Jones-Evans, Arweinydd Strategol Cytundeb Twf Canolbarth Cymru.
- Cyflwyniad gan Dr Olwen Williams OBE (Cyfarwyddwr Arweinyddiaeth Glinigol y GIG, Athro ym Mhrifysgol Caerdydd, a chyn Ymgynghorydd Clinigol ar Feddyginiaeth HIV) ar ymgyrch "Arweinyddiaeth Dosturiol" y GIG.
- Ian Govier, Academi Cymru, yn cyflwyno "Arweinyddiaeth yn Gryno".
- Panel trafodaeth â chyn-hyfforddeion sydd bellach mewn swyddi uwch neu'n rheolwyr:
 - Daniel Minister, Pennaeth Busnes y Llywodraeth (Adran Economi), Llywodraeth Cymru.
 - Sara Griffiths, Rheolwr Moderneiddio Addysg yng Nghyngor Sir Gâr.
 - Miriam Williams, Cyfreithwraig yng Nghyngor Gwynedd.
- Cyflwyniad gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ei bwysigrwydd a sut i arwain newid cynaliadwy.
- Trafodaeth agored ar sut y gellid cynyddu cyd-weithio rhwng y cynlluniau graddedigion yng Nghymru.



Canlyniad

Cynhaliwyd y digwyddiad ar Ddydd Iau, 25ain o Ionawr, gyda dros 50 o hyfforddeion gan gynnwys 5 o Gyngor Sir Gâr yn mynychu o bob rhan o Gymru gyda chynrychiolaeth o blith:

- Cyngorau Lleol Cymru
- Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil
- Sefydliadau'r GIG yng Nghymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Archwilio Cymru
- Academi Cymru.

Bu'n ddiwrnod addysgiadol a defnyddiol a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn wedi'r digwyddiad. Arweiniodd Sioned ar drafodaeth olaf y dydd lle ffocyswyd ar sut y gellid cydweithio rhwng y Cynlluniau Graddedigion yng Nghymru. Isod gwelir graddedigion Cyngor Sir Gâr.



Dyfodol

Wrth edych ymlaen, mae'r grŵp yn awyddus i gadw'r momentwm i fynd gan roi strwythur ffurfiol i'r Rhwydwaith. O'r pwyntiau a drafodwyd ar ddiwedd y dydd, mae Osian Prys, Cydlynnydd y Grŵp bellach wedi dechrau ar y gwaith o lunio cynllun gweithredu a fydd yn cael ei rannu gyda chydlynwyr cynlluniau graddedig Cymru er mwyn ennyn eu cefnogaeth a meithrin perchnogaeth yn y Rhwydwaith. Sefydlwyd grŵp estynedig i helpu gyda'r cynllun gweithredu a'i gyflwyno, gyda Sioned yn rhan o'r grŵp.

Astudiaeth Achos 5: Asesu Effaith a Strategaeth Ddigidol y Cyngor

Cefndir

Mae asesiadau effaith yn arf ymarferol pwysig i'n helpu i ddeall a lliniaru effaith bosibl ein penderfyniadau ar ein trigolion, ein cwsmeriaid a'n gwasanaethau. Maent yn ein helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai gwahanol grwpiau a gwasanaethau gael eu heffeithio gan ein cynigion, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Yn y pen draw, mae asesiadau effaith yn gyfle i ni dystiolaethu ein proses o feddwl ac i herio rhagdybiaethau wrth ddatblygu cynigion newydd. Yn unol â Safonau'r Gymraeg rydym, drwy ein asesiad effaith integredig, yn ceisio 'Ystyried pa effeithiau, os o gwbl (boed yn bositif neu'n andwyol), byddai'r penderfyniad yn ei gael ar:

1. Cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
2. Peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg'.

Rydym hefyd yn gofyn i swyddogion ystyried y pwyntiau canlynol er mwyn cefnogi'r nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg:

- Galluogi a grymuso siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg mewn bywyd bob dydd, cael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg, gallu dysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg, cynllunio a sicrhau mynediad priodol at addysg a hyfforddiant o safon drwy gyfrwng y Gymraeg, gan wneud yn siŵr bod ein cymunedau yn fannau lle defnyddir y Gymraeg yn rhwydd ac yn aml.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg - mae hyn yn cynnwys hawliau siaradwyr y Gymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â ni ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.
- Mynd ati i annog a hyrwyddo defnyddio ein gwasanaethau yn y Gymraeg er mwyn gweld cynnydd dros amser e.e. ymweliadau â'r wefan, nifer yr ymgynghoriadau yn y Gymraeg, defnydd o gyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

O ran hyrwyddo'r Gymraeg, gofynnwn i swyddogion ystyried y pwyntiau canlynol:

- Sut mae'r polisi/prosiect yn cefnogi'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir? Sut mae'n lliniaru unrhyw ostyngiad pellach?
- Sut mae'r polisi/prosiect yn cyd-fynd â Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor?
- Pa amcanion cenedlaethol sy'n cael eu cefnogi?
- Sut ydych chi'n bwriadu grymuso ac annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â chi ar y polisi/prosiect hwn?

Gweithredu

Yn ystod y flwyddyn 2023-24, paratowyd Strategaeth Ddigidol gyntaf y cyngor, ac yn y broses, cynhaliwyd asesiad effaith manwl o ran effeithiau posib a chyfleoedd i hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y maes digidol.

Mae'n hanfodol pwysleisio ac ymgorffori'r Gymraeg yn y Strategaeth Ddigidol er mwyn sicrhau cysondeb ag ystyriaethau diwylliannol, cyfreithiol, economaidd, addysgol a

chymdeithasol. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o ddatblygiad a llesiant cyfannol Sir Gaerfyrddin yn yr oes ddigidol. Byddwn yn sicrhau bod ein holl wasanaethau ar-lein a digidol yn cael eu darparu'n ddwyieithog a'u hyrwyddo i'n trigolion a'r economi leol yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru), 2011.

Dyfodol

Mae **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**, yn nodi'n glir fod yn rhaid i'r Gymraeg fod yn rhan o'r chwyldro digidol, sy'n rhychwantu pob un o'r 5 maes â blaenoriaeth yn y strategaeth hon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle creiddiol wrth arloesi mewn technoleg ddigidol, fel bod modd defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol, ac fel Cyngor, byddwn yn cefnogi ac yn cyflawni'n unol â hyn. Mae ein nod yn gyson â'r nod yng 'Nghynllun Gweithredu Technoleg y Gymraeg', sy'n deillio o Cymraeg 2050, a byddwn yn sicrhau ein bod yn cynllunio datblygiadau technolegol fel bod modd defnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau, boed hynny drwy ddefnyddio llais, bysellfwrdd neu fath arall o ryngweithio rhwng person a chyfrifiadur.

Astudiaeth Achos 6: Eisteddfod yr Urdd

Cefndir

Un o'r uchafbwyntiau yng nghalendr 2023 oedd Eisteddfod yr Urdd yn dod i Sir Gâr. Mae Eisteddfod yr Urdd yn un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop sy'n denu tua 90,000 o ymwelwyr ar draws chwe diwrnod. Yn flynyddol, gwelir dros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu. Croesawyd yr Eisteddfod i Lanymddyfri a lleolwyd pabell y Cyngor wrth y fynedfa. Roedd yn cynnwys 4 pod gwahanol, gyda ffocws a gweithgareddau amrywiol yn ystod yr wythnos.

Gweithred

Pinacl mwyaf yr wythnos i ni oedd lansiad yr ail Strategaeth Hybu. Gweledigaeth y Strategaeth Hybu yw cynyddu cyfran trigolion Sir Gâr sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn defnyddio'u Cymraeg yn gyson. Anelwn i weld y Gymraeg yn norm gweithio a gweithredu yn sefydliadau cyhoeddus y Sir.

Gosodwyd 4 amcan yn yr Strategaeth, ac fel rhan o'r lansiad penderfynwyd trefnu Panel a gwahodd Siaradwyr gwadd o'r Sir oedd yn gallu lleisio barn ar yr amcanion a bennwyd a thrafod camau gweithredu'r strategaeth newydd. Roedd cyfle i'r mynychwyr rwydweithio dros baned ar ôl y drafodaeth. Gwelir isod rhestr o siaradwyr y Panel:


- **Amcan 1 – Cynnydd mewn siaradwyr Cymraeg:**
Leanne March (Pennaeth Adran Datblygu Gwasanaethau Meithrin) a Gwenllian Stephens (Perchennog a Rheolwraig Meithrinfa Cwtsh y Clos).
- **Amcan 2 – Cynnal balchder, defnydd a hyder:**
Aelodau Chweched Dosbarth Ysgolion Bro Myrddin a Maes y Gwendraeth i sôn am yr holl gyfleodd anffurfiol maent wedi elwa ohonynt.
- **Amcan 3 – Y Gymraeg yn norm yn y gweithle a'r gweithlu**
- **Amcan 4 – Cymunedau sy'n ffynnu:**
Carys Ifan (Rheolwraig yr Egin) yn bennaf am ddatblygiadau Economaidd a'r Gymraeg.

Bu aelodau o'r Tîm Polisi yn rhan o Bwyllgor 'Ar y Maes' y Cyngor a arweiniwyd gan y Tîm Marchnata a'r Cyfryngau o fewn y Cyngor. Roedd y Pwyllgor yn benodol ar gyfer trefnu gweithgareddau ar gyfer yr wythnos o fewn pabell y Cyngor. Gyda'r Eisteddfod yn Sir Gâr gosodwyd her gyhoeddus i gael holl ysgolion y Sir i gystadlu yn yr Eisteddfod. Yn deillio o hyn, penderfynwyd y byddai'n braf cael llwyfan berfformio ym Mhabell y Cyngor oedd yn rhoi cyfle i ysgolion ymarfer ac ail-berfformio wedi eu rhagbrofion. Un o brif gyfrifoldebau swyddogion y Tîm Polisi oedd trefnu y llwyfan berfformio a llunio amserlen. Cysylltwyd gyda'r holl ysgolion a oedd wedi cyrraedd y rowndiau derfynol ac yn dod i Lanymddyfri i gystadlu gan gynnig y cyfle arbennig hwn iddynt.

Canlyniad

Cynhaliwyd lansiad y Strategaeth Hybu ar ddydd Iau 1af o Fehefin rhwng 2:30-3:30 ar Stondin y Cyngor Sir. Cadeiriwyd y lansiad gan Meri Huws, Cadeirydd Fforwm Strategol y Gymraeg Sir Gaerfyrddin. Mynychodd 36 o bobl y lansiad gyda'r mynychwyr yn cynrychioli nifer o sefydliadau a byrddau gwahanol o ar draws y Sir. Roedd yn brynhawn llwyddiannus

iawn wrth adlewyrchu ar y gwaith cadarnhaol sydd wedi cael ei wneud, a'r cyfnodau cyffrous sydd i ddod wrth fynd ati i weithio ar y camau gweithredu.



Derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gyda nifer o ymwelwyr wedi eu denu mewn i weld y perfformiadau. O'r her a osodwyd llwyddwyd cael 90% o ysgolion y Sir i gystadlu yn yr Eisteddfod, a 100% o ysgolion Uwchradd y Sir.



Dyfodol

Yn dilyn lansio'r Strategaeth Hybu y cam nesaf yw llunio cynllun gweithredu ar gyfer pob un o amcanion y Strategaeth gyda help partneriaid allweddol. Gobeithiwn rhoi'r camau gweithredu yma ar waith yn syth ac adolygu a addasu yn rheolaidd.

Gobeithiwn y bydd modd parhau gyda'r momentwm i gefnogi'r ysgolion i barhau i gystadlu yn flynyddol a gwneud rhywbeth tebyg pan ddaw'r Eisteddfod i Sir Gâr eto.